**CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTÛN GWYNEDD**

**08-10-08**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Pat Larsen, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards, (Is-gadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr: Selwyn Grithiths, Aeron Jones, Guto Rhys Thomas, Stephen Churchman.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs. Ruth Davies, (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Wyn Myles Meredith, (Eglwys Fethodistaidd), Y Parch Ganon Tegid Roberts, (Yr Eglwys Yng Nghymru Esgobaeth Bangor)

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Mr Paul Mathews Jones, (SHA).

**Swyddogion :** Mr Owen Owens, (Uwch Reolwr Ysgolion Parhaol), Miss Bethan James, (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mr Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**1. MAES LLAFUR CYTUN**

Eglurwyd, mewn adroddiad ysgrifenedig, bod ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig yn dilyn Maes Llafur Cytun Gwynedd a Môn. Hyrwyddir y Ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau ag ysgolion.
Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytun a'r canllawiau asesu 'Mesur Cynnydd Mewn Addysg Grefyddol' fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

Lluniwyd fframwaith enghreifftiol ar gyfer 3 i 19 oed, a chytunodd aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn ei fod yn addas i'w fabwysiadu fel Maes Llafur Cytun.

Nodwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y mater wedi cael ystyriaeth fanwl. Ar ran athrawon Gwynedd, 'roedd felly'n cyflwyno cais i'r Ddogfen gael ei mabwysiadu'n ffurfiol fel Maes Llafur Cytun Gwynedd.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol y dylid mabwysiadu'r Ddogfen fel Maes LLafur Cytun Gwynedd.**